# Rural ADVISOR

## CYLCHLYTHYR YR HYDREF



## NEWYDDION TÎM

Mae Maria'n falch iawn o gael ei dewis fel ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer Rhaglen Arweinyddiaeth Wledig Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru ar gyfer 2023-2024.

Nôd y Rhaglen Arweinyddiaeth yw darparu rhaglen lawn o hyfforddiant, mentora, cefnogaeth ac arweiniad. Ei nod yw ysbrydoli arweinwyr y dyfodol mewn amaethyddiaeth.











Wnaeth Rural Advisor gynnal derbyniad 2 ddiwrnod yn Sioe Frenhinol Cymru. Gwnaeth y sesiwn ar y dydd Mawrth galluogi cleientiaid i gwrdd â'n tîm craidd a thîm ehangach o ymgynghorwyr.



Mae'n bleser gan Rural Advisor gyhoeddi llwyddiant ein noson gyflwyno SFI yn Allensmore yn ddiweddar. Cyflwynodd Ellie ddiweddariad ar y camau SFI newydd a bu'n trafod opsiynau posibl ar gyfer ffermwyr glaswellt ac âr. Rhoddodd Ellie rywfaint o sylwebaeth ar sut y gallai'r SFI ffitio i gytundebau rhentu a gofynnodd a yw'n bryd adnewyddu hen drwyddedau blynyddol hir sefydlog. Trafodwyd y grantiau diweddaraf hefyd gan gynnwys Cronfa Menter Wledig Swydd Henffordd.











Rhoddodd ein Hymgynghorydd Cynllunio Hazel Nash gyflwyniad addysgiadol a rhyngweithiol iawn yn y gynhadledd Cyfraith Wledig yng Nghymru a drefnwyd gan yr
ALA a Chymdeithas y Gyfraith – Cymru.

## Cynllun Cynefin Cymru 2024

Mae y cynllun newydd hyn yn cynnig cymorth amgen i ffermwyr cymwys, gan gynnwys ffermwyr Glastir Uwch, Tir Comin ac Organig, pan fydd eu contractau i ben ar 31 Ragfyr 2023. Mae'r cynllun yma yn cynnig contract 12 mis, yn ddechrau o 1 Ionawr 2024.

**Pwrpas:** Cynnal a cynyddu yr ardal o thir cyneffin o flaen cyflwyno Cynllun Ffermio Cynalidawy (SFS), yn ogystal a chadw cymorth ar gyfer tir comin.

**Tri dosbarthiad tir cymwys :**

1.) Tir o dan opsiwn cynefin o fewn contract Glastir Uwch (gan gynnwys Glastir - Tir Comin).
2.) Tir cynefin a nodwyd gan MapDataCymru (ac eithrio safleoedd dynodedig).
3.) Tir a reoli fel cynefin gan dilyn mesurau rheoli, e.e. dim aredig/amaethu. ail-hau neu wella cynefin, dim i gwasgaru calch, gwrtaith organic neu anorganig.

**Cyfradd taliadau:**
Bydd uchafswm taliad yn cael ei gapio.

Ar gyfer busnes fferm unigol:

| | |
|---|---|
| Tir cynefin | £69/ha |
| Cynefin coetir | £62/ha |

Ar gyfer tir comin:

| | |
|---|---|
| Taliad rheoli tir comin | £25/ha |
| Taliad ychwanegol ar gyfer rheoli stoc | £15/ha |
| Taliad ychwanegol ar gyfer pori cymysg | £12/ha |
| Taliad ychwanegol am leihau stocio | £259/UDB |

Rural ADVISOR

**Am fwy o wybodaeth neu gymorth cysylltwch â:**
**Alison Harvey 01947 671 053 neu**
**Laura Evans 01970 597096**
**ruraladvisor.co.uk**

Rydym yn hollol gyfarwydd â'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau grant, sy'n golygu y gallwn gynnig cyngor defnyddiol i'n cleientiaid yng Nghymru a Lloegr am y cynlluniau sydd ar gael ac a allent fod yn addas ar gyfer daliad penodol.

Gallwn ddarparu cyngor trylwyr ynghylch y cynllun Stiwardiaeth Cefn Gwlad a Cheisiadau Grant Cyfalaf Dŵr yn Lloegr, gan gynnwys cyngor ar opsiynau, cyflwyno ceisiadau a rheolaeth flynyddol yn ôl yr angen.

Gallwn ddarparu gwasanaeth llawn ynglŷn â Grantiau Cynhyrchu Cynaliadwy yng Nghymru o gymorth gyda'ch Datganiad o Ddiddordeb, i gynorthwyo gyda'r cais llawn gan gynnwys unrhyw gynlluniau busnes fferm ac unrhyw geisiadau cynllunio gofynnol.